# Arwain darpariaeth gofal plant integredig

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain a rheoli darpariaeth gofal plant integredig. Darpariaeth integredig yw pan fydd ystod o wasanaethau ac amgylcheddau ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd yn cael ei darparu. Nid oes yn rhaid iddo fod yn lleoliad ffisegol, ond gallai gynnwys ystod o wasanaethau neu adnoddau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a theuluoedd. Rhaid i chi allu arwain a rheoli eraill yn ogystal ag arwain dulliau integredig o ddarparu gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sefydlu ac arwain timau i gyflawni darpariaeth gofal plant integredig
2. hybu pwrpas a gweledigaeth a rennir i sicrhau dulliau sy’n canolbwyntio ar y plentyn
3. gwerthfawrogi a pharchu eraill, gan gydnabod eu cryfderau a’u harbenigedd
4. hybu diwylliant o urddas, caredigrwydd a thosturi er mwyn cefnogi amgylcheddau gwaith cadarnhaol
5. hwyluso cyfathrebu effeithiol i hybu pobl eraill i gydweithio
6. hybu dysgu a datblygu drwy annog eraill i ysgwyddo cyfrifoldebau arwain a rheoli
7. cefnogi eraill i ddatblygu rhwydweithiau sy’n gwella’r modd y darperir gwasanaethau
8. sefydlu trefniadau i nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau o fewn darpariaeth integredig
9. datblygu systemau a phrotocolau i rannu a storio gwybodaeth yn y gweithle
10. sicrhau bod dulliau darparu gwasanaethau’n cael eu cyfuno a’u bod yn canolbwyntio ar anghenion, hawliau a dewisiadau plant neu bobl ifanc a theuluoedd
11. gwrando ar farn plant neu bobl ifanc a theuluoedd, ac ymateb iddynt, gan sicrhau eu bod yn llywio’r broses o wneud penderfyniadau
12. dyrannu adnoddau yn ôl anghenion a nodwyd
13. cefnogi eraill i fynd i’r afael â gwrthdaro, a’i ddatrys, er mwyn hybu canlyniadau cadarnhaol
14. monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth o ran sicrhau gofal plant integredig
15. gweithio ar y cyd ag eraill i nodi meysydd o arferion gorau a gwelliannau o ran darparu gwasanaethau
16. datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i’r afael â meysydd i’w gwella yn ogystal ag ychwanegu at drefniadau gweithio integredig
17. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i arwain darpariaeth gofal plant integredig
18. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain darpariaeth gofal plant integredig

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. egwyddorion gweithio integredig a manteision cydweithio
2. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn darpariaeth gofal plant integredig
3. sut mae ymgysylltu ag eraill i gefnogi darpariaeth gwasanaeth integredig a phartneriaethau cydweithredol
4. mentrau lleol a chenedlaethol sy'n hybu llesiant plant a phobl ifanc
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar brofiadau plant a phobl ifanc a darpariaeth gwasanaeth
6. rôl diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol o ran llunio'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd
7. dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaeth integredig
8. strategaethau ar gyfer ymdrin â materion a phryderon er mwyn meithrin perthnasoedd cadarnhaol
9. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi mewn darpariaeth gofal plant integredig
10. sut mae hwyluso cyfathrebu effeithiol a chydweithio mewn darpariaeth gofal plant integredig
11. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol mewn darpariaeth gofal plant integredig
12. sut mae arwain mewn perthynas â systemau, gweithdrefnau ac arferion i gefnogi darpariaeth gofal plant integredig
13. dulliau i ddatblygu cynlluniau gweithredu i wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chanlyniadau gwasanaethau
14. sut mae defnyddio data ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau
15. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i arwain darpariaeth gofal plant integredig
16. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i arwain darpariaeth gofal plant integredig
17. theorïau sy'n berthnasol i arwain darpariaeth gofal plant integredig
18. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain darpariaeth gofal plant integredig

19. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain darpariaeth gofal plant integredig
20. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain darpariaeth integredig, a sut i fynd i'r afael â hyn
21. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu o ran arwain darpariaeth gofal plant integredig

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain darpariaeth gofal plant integredig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD425 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Arwain darpariaeth gofal plant integredig, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |